# AC(2)04-05(p.4)

## Dadansoddiad o ymatebion i’r ymgynghoriad drafft ar y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu

### Cyflwyniad

1. Diben y papur hwn yw rhoi crynodeb lefel uchel i’r Pwyllgor o’r ymatebion a dderbyniwyd mewn perthynas â’r ymgynghoriad diweddar ar y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu drafft (y Cod).

2. Mae’r Cod yn nodi’r fframwaith a fydd yn rheoli gwaith archwilwyr sectorau cyhoeddus yng Nghymru. Yn flaenorol, bu Cod Ymarfer Archwilio ar waith yn ymdrin â chyfrifoldebau archwilwyr penodedig y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Lloegr. Mae’r Cod newydd yn benodol i Gymru ac yn adlewyrchu cylch gwaith estynedig Archwilydd Cyffredinol Cymru fel y nodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Felly mae’n cwmpasu swyddogaethau llywodraeth leol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Ar 6 Awst 2004 cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y Cod drafft i tua 900 o sefydliadau ac unigolion (gan gynnwys cymdeithasau cyrff llywodraeth leol) er mwyn cael eu sylwadau, sef nifer dipyn yn uwch na’r isafswm gofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â hwy. Yn ogystal, roedd y drafft ar gael ar wefan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Hydref 2004.

4. Goruchwyliwyd y broses gyffredinol o ddrafftio’r Cod, yn cynnwys gwerthuso ymatebion i’r ymgynghoriad, gan dîm prosiect a sefydlwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac a gadeiriwyd gan Gyfarwyddwr Polisi Archwilio a Phenodiadau’r Comisiwn Archwilio. Yn ogystal, cyfeiriwyd at y gwaith a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y Comisiwn Archwilio yn Lloegr wrth ddiwygio ei God Ymarfer Archwilio ei hun.

5. Mae’r crynodeb hwn yn rhoi dadansoddiad o ymatebion i’r ymgynghoriad. Derbyniwyd cyfanswm o 34 o atebion unigol a chyfansawdd i’r Cod, yn cynrychioli ystod eang o sefydliadau. Dangosir y rhestr o ymatebwyr yn yr Atodiad i’r crynodeb hwn. Bu tîm y prosiect yn ddiolchgar iawn am y sylwadau a’r awgrymiadau defnyddiol a dderbyniwyd ac anfonwyd ateb ysgrifenedig i’r holl ymatebwyr i gydnabod eu cymorth wrth gwblhau’r broses o ddrafftio’r Cod.

### Yr ymateb cyffredinol i’r Cod drafft

6. Roedd yr ymateb cyffredinol a dderbyniwyd yn gadarnhaol iawn ac, o’r 34 o atebion, nododd 10 eu bod yn fodlon â’r Cod fel y’i drafftiwyd. Lle gwnaed sylwadau sylweddol, yn gyffredinol roeddent yn geisiadau am helaethiad neu eglurder o fewn adrannau’r Cod, ac yn canolbwyntio ar y prif feysydd

canlynol:

Mesur ansawdd gwaith archwilio ac arolygu

7. Canolbwyntiodd y sylwadau ar y modd y byddai perfformiad archwilwyr ac arolygwyr yn cael ei fesur gan geisio eglurhad o safonau ansawdd archwilwyr. Yn ogystal, codwyd y mater o ran sut y byddai cysondeb yn cael ei sicrhau yng ngwaith archwilwyr penodedig llywodraeth leol o ystyried y byddant yn cynnwys staff Swyddfa Archwilio Cymru a chwmnïau archwilio allanol. Yn yr un modd, gofynnodd un ymatebydd pa weithdrefnau adolygu fyddai ar waith i sicrhau bod y Cod yn cael ei ddilyn.

8. Cododd ymatebwyr eraill faterion yn cynnwys pwysigrwydd safonau moesegol ar gyfer archwilwyr a'r angen i osgoi gwrthdaro buddiannau. Roedd un ymatebydd wedi codi'r anhawster posibl wrth gostio argymhellion archwilio, maes y cyfeiriwyd ato yn adran Egwyddorion Cyffredinol y Cod. Yn ogystal, codwyd pwysigrwydd sicrhau cysondeb yn y ffordd y mae archwilwyr ac arolygwyr yn cynnal asesiadau risgiau.

Yr adroddiad archwilio i'w baratoi gan archwilwyr penodedig ar gyfrifon awdurdodau lleol a chan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyrff eraill

9. Ceisiodd ymatebwyr eglurhad pellach ar ddau brif fater yn y maes hwn. Roedd y cyntaf yn ymwneud â'r datganiad yn y Cod y byddai adroddiad yr archwiliwr yn cynnwys, ar sail eithriadol, ganfyddiadau'n ymwneud â pharatoi Cynlluniau Gwella gan awdurdodau lleol o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Roedd yr ail fater yn ymwneud â'r gwaith y byddai angen i archwilwyr ei gynnal i fodloni'r gofyniad yn y Cod i gynnwys casgliad yn adroddiad yr archwiliwr ar y gwerth am arian a gyflawnwyd gan gorff o ran y defnydd o adnoddau.

Pwysigrwydd gweithio gyda rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill

10. Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd cydweithredu rhwng archwilwyr ac arolygwyr a rheoleiddwyr ac arolygiaethau annibynnol eraill. Yn ogystal, ceisiwyd eglurhad ar y modd y gallai'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac arolygiaethau eraill weithio'n ymarferol.

## Sut mae'r Cod wedi newid o ganlyniad

Gwelliannau a wnaed i'r drafft

11. Mae tîm y prosiect wedi gwneud newidiadau penodol i'r Cod drafft er mwyn adlewyrchu'r sylwadau a wnaed, lle y bo hyn yn briodol. Fel enghreifftiau, mae'r Cod bellach yn cynnwys datganiad clir yn ei Ragarweiniad y bydd y ddogfen yn darparu fframwaith y gellir adolygu gwaith staff archwilio ac arolygu yn ei erbyn; ac mae Adran 3 y Cod yn cynnwys disgrifiad mwy manwl o'r hyn fydd cynnwys adroddiad yr archwilwyr ar ddatganiadau ariannol.

12. Er mwyn helpu wrth fynd i'r afael â materion a godwyd gan ymatebwyr, cymerwyd cyfle hefyd i wella cyflwyniad cyffredinol y Cod fel ei fod yn haws i'w ddarllen ac yn cynnwys gwell cyfeirio drwy'r ddogfen. Yn ogystal, erbyn hyn mae adrannau'r Cod sy'n berthnasol i archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol yn benodol wedi'u nodi'n gliriach.

## Datblygiadau arfaethedig eraill i ategu'r Cod

Arweiniad pellach i'w baratoi

13. Yn ogystal, mae'r atebion gan ymatebwyr wedi atgyfnerthu'r cynigion sydd ar waith eisoes i baratoi arweiniad mwy manwl mewn nifer o feysydd, a gaiff eu cyhoeddi ar wahân ac a fydd yn ategu'r Cod. Enghraifft o hyn fydd y Datganiadau Cyfrifoldebau a fydd yn nodi, mewn perthynas â gwaith archwilio ac arolygu a gynhelir, priod gyfrifoldebau archwilwyr ac arolygwyr a chyrff a archwilir ac a arolygir.

Gwaith arall sy'n cael ei gynnal

14. Yn ogystal, mae canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu datblygu yng ngwaith datblygu Swyddfa Archwilio Cymru mewn meysydd megis ansawdd archwilio. Y prif feincnod yn y maes hwn, ochr yn ochr â'r Cod ei hun, fydd y gofyniad i'n harchwilwyr gydymffurfio â safonau archwilio a moesegol proffesiynol. Ar hyn o bryd mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn llunio fframwaith ar gyfer gweithdrefnau rheolaeth a sicrwydd ansawdd mewnol sy'n debygol o fod yn destun gwerthuso a dilysu allanol parhaus.

## Casgliad

15. Yn ein barn ni mae'r ymgynghoriad wedi arwain at gryfhau'r Cod yn sylweddol a fydd hefyd yn cael ei ategu gan arweiniad mwy manwl mewn meysydd allweddol maes o law a fydd yn cynorthwyo archwilwyr ac arolygwyr a chyrff a archwilir ac a arolygir ymhellach wrth roi ei ofynion ar waith

## Atodiad

## SEFYDLIADAU AC UNIGOLION SY'N YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR Y COD YMARFER ARCHWILIO AC AROLYGU DRAFFT

## CYRFF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL

Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent

Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd

Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro

Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe

Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin

Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a’r Rhondda

Ymddiriedolaeth Felindre

## CYRFF LLYWODRAETH LEOL

Prif Archwiliwr Mewnol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Sir Dinbych

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Powys

Prif Swyddogion Heddlu Gogledd Cymru

Heddlu De Cymru

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## AROLYGIAETHAU A CHYRFF RHEOLEIDDIOL

Arolygiaeth Twyll Budd-daliadau

Estyn

Cyngor Optegol Cyffredinol

Comisiwn Gofal Iechyd

Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

## CYFRIFYDDIAETH AC ARCHWILIO

Audit Scotland

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth Chartered Institute

HLB AV Audit PLC

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

KPMG, Caerdydd

Swyddfa Archwilio Genedlaethol

PricewaterhouseCoopers

## RHANDDEILIAID ERAILL

Cyngor ar Bopeth Cymru

Mr Geoff Marlow, Adran Dai, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr Athro Michael Quayle, Prifysgol Morgannwg

Cymdeithas Tai Cymru a’r Gorllewin